

## Yr Archwiliad Canser Oesoffago-gastrig Cenedlaethol

### Hysbysiad Preifatrwydd

#### Beth yw pwrrpas yr Archwiliad Canser Oesoffago-gastrig?

Cynhelir yr Archwiliad Canser Oesoffago-gastrig Cenedlaethol (yr Archwiliad) gan bartneriaeth rhwng yr Uned Effeithiolrwydd Clinigol yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon, NHS Digital, Cymdeithas Llawfeddygon y Llwybr Gastrobereddol Uwch, Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain a Choleg Brenhinol y Radiolegwyr.

Mae'r Archwiliad yn mesur ansawdd y gofal a gafodd cleifion a oedd â chanser oesoffago-gastrig a dysplasia gradd uchel oesoffagaidd yng ngwasanaethau'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Ei bwrrpas yw gwerthuso'r llwybr gofal sy'n cael ei ddilyn gan gleifion wedi iddynt gael diagnosis o'r naill anhylder neu'r llall, ac ateb cwestiynau sy'n gysylltiedig â'r gofal a'r canlyniadau y maent yn eu cael.

Drwy archwilio'r gofal a ddarperir gan wasanaethau cancer, gallwn dynnu sylw at feysydd lle mae ysbyta'i'n gwneud yn dda, ac at feysydd lle mae lle i wella ansawdd y gofal. Drwy gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer holl wasanaethau'r GIG, mae'n caniatáu i wasanaethau cancer eu cymharu eu hunain ag eraill yng Nghymru a Lloegr, a rhannu enghreiftiau o ymarfer da.

#### Sut mae data cleifion yn cael eu casglu, a data ar ba lefel sy'n cael eu casglu?

Mae'r holl gleifion sy'n oedolion a gafodd ddiagnosis o ganser oesoffago-gastrig (OG) neu ddysplasia gradd uchel (DGU) oesoffagaidd yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i gael eu cynnwys yn yr Archwiliad. Darperir data cleifion i'r Archwiliad gan ysbytai'r GIG, ac maent yn cael eu storio mewn system TG ddiogel sydd o dan reolaeth NHS Digital.

Mae ysbytai'n darparu gwybodaeth am y gofal y mae cleifion yn ei gael i drin cancer OG neu DGU. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth adnabyddadwy (rhif GIG, dyddiad geni a chod post) sy'n galluogi'r Archwiliad i gysylltu gwybodaeth am yr un claf a gyflwynwyd gan dimau ysbytai eraill. Mae manylion y wybodaeth a gasglwn ar gael i'w gweld yma: [www.nogca.org.uk/resources/nogca-data-proforma/](http://www.nogca.org.uk/resources/nogca-data-proforma/)

Er mwyn lleihau'r angen i staff ysbytai gasglu data ychwanegol, mae'r Archwiliad hefyd yn cysylltu'r data a gyflwynwyd â gwybodaeth arall sy'n cael ei dal yn y cronfeydd data ysbytai cenedlaethol, y gofrestr farwolaethau genedlaethol, a'r setiau data cemotherapi a radiotherapi sy'n cael eu dal gan Public Health England. Mae'r setiau data yn cael eu cysylltu gan NHS Digital.

Ar ôl cysylltu'r setiau data, dim ond setiau data nad ydynt yn adnabyddadwy y bydd tîm prosiect yr Archwiliad yn eu cael ar gyfer dadansoddi. Caiff y data eu storio mewn amgylchedd TG diogel yng

Ngholeg Brenhinol Llawfeddygon (RCS) Lloegr. Dim ond unigolion a gymeradwywyd sydd â'r hawl i weld y data a sicrheir diogelwch drwy ddefnyddio cyfrineiriau ac amgryptio. Mae'r RCS yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â defnyddio data cleifion â ffugenwau. Cedwir y data y mae tîm yr Archwiliad yn eu cael drwy gydol cyfnod yr Archwiliad.

### Rheolwr Data yr Archwiliad

Comisiynir yr Archwiliad gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Raglen Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru ac NHS England. Mae'r Archwiliad wedi'i gomisiynu i redeg tan fis Mai 2021. Bydd HQIP yn asesu pa mor hir y bydd angen storio'r data pan fydd yr Archwiliad wedi dod i ben.

NHS England a HQIP yw'r rheolwyr data ar y cyd ar gyfer y data am gleifion a gyflwynir yn uniongyrchol i'r Archwiliad gan ysbytai'r GIG. Mae Swyddog Diogelu Data gan HQIP a gellir cysylltu ag ef yn y cyfeiriad e-bost canlynol: [data.protection@hqip.org.uk](mailto:data.protection@hqip.org.uk). I gael rhagor o wybodaeth, gweler polisi preifatrwydd HQIP: [www.hqip.org.uk/about-us/privacy-policy](http://www.hqip.org.uk/about-us/privacy-policy)

Mae NHS Digital yn cyfuno'r data a gyflwynir i'r Archwiliad â gwybodaeth sy'n cael ei dal mewn cronfeydd data cenedlaethol eraill. Mae rhestr isod o'r rheolwyr data ar gyfer y cronfeydd data cenedlaethol hyn. Cliciwch ar yr hyperddolenni i gael rhagor o wybodaeth amdanynt:

- NHS Digital – data ysbytai Lloegr o'r set ddata Ystadegau Cyfnodau mewn Ysbytai ([HES](#))
- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru – data ysbytai Cymru o Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru ([PEDW](#))
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – cofrestr marwolaethau ([ONS](#))
- Public Health England - data am gemotherapi ([SACT](#)) a radiotherapi ([RTDS](#))
- Rhwydwaith Canser Cymru – gwybodaeth am gleifion yng Nghymru o System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru ([Canisc](#))

### Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol

Mae'r Archwiliad Canser Oesoffago-gastric Cenedlaethol wedi cael cymeradwyaeth i brosesu gwybodaeth gofal iechyd o dan Adran 251 (rhif cyfeirio: ECC 1-06 (c)/2011) ar gyfer yr holl gleifion a gafodd ddiagnosis o ganser OG yng Nghymru a Lloegr. Mae rhagor o wybodaeth am Adran 251 ar gael yma: [www.hra.nhs.uk/about-the-hra/ourcommittees/section-251/what-is-section-251/](http://www.hra.nhs.uk/about-the-hra/ourcommittees/section-251/what-is-section-251/).

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol gan yr Archwiliad yw Tasg Gyhoeddus. Rydym yn prosesu gwybodaeth cleifion er mwyn gwerthuso a gwella ansawdd y gofal a gaiff cleifion sydd â chanser OG a DGU oesoffagaidd mewn gwasanaethau (GIG) a ariannwyd gan y cyhoedd yng Nghymru a Lloegr, sydd er lles y cyhoedd.

Rydym hefyd yn prosesu data personol sy'n angenrheidiol i reoli'r broses casglu data a'r broses Cyhoeddi Canlyniadau Clinigol, e.e. gwybodaeth gysylltu ar gyfer timau clinigol ac aelodau staff sy'n cymryd rhan yn yr Archwiliad. Rydym wedi cynnal asesiad buddiannau diliys (ABD) sy'n amlinellu'r pwrrpas a'r angen am y wybodaeth hon. Mae'r ABD yn cael ei ddal dan sylw a bydd yn cael ei ddiweddarwr wrth i'r amgylchiadau newid.

### Sut rydym yn diogelu eich data

Mae timau clinigol lleol yn mewnbrynnu data cleifion i offeryn diogel ar y we a ddarparwyd gan NHS Digital. Dim ond meddygon, nyrssy a staff archwilio clinigol a gofrestrwyd gyda'r Archwiliad sy'n gallu mynd at yr offeryn casglu data. Sicrheir diogelwch a chyfrinachedd drwy ddefnyddio cyfrineiriau a phroses gofrestru berson-benodol. Dim ond staff NHS Digital yn nhîm yr Archwiliad sydd â'r hawl i weld y set ddata gyfan yn yr offeryn casglu data.

### Cyfrinachedd cleifion

Dim ond setiau data anadnabyddadwy y bydd tîm prosiect yr Archwiliad yn eu cael gan NHS Digital. Nid yw'r rhain yn cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif fel enw, cyfeiriad neu god post. Ar ôl cael data am gleifion, mae tîm yr Archwiliad yn eu rheoli a'u trin fel gwybodaeth gyfrinachol.

Wrth gyhoeddi data, bydd yr Archwiliad yn adrodd ar ystadegau ar lefel grŵp (e.e. cenedlaethol, rhanbarthol, neu grŵp cleifion penodol), nad yw'n caniatáu adnabod unigolion. Mae'r Archwiliad yn dilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyhoeddi ystadegau – [Adolygiad o Ledaenu Ystadegau Iechyd: Canllawiau ar Gyfrinachedd \(PDF\)](#).

### Rheoli data cleifion gan dîm yr Archwiliad

Mae tîm yr Archwiliad wedi'i leoli yng Ngholeg Brenhinol Llawfeddygon (RCS) Lloegr ac NHS Digital. Mae'r RCS ac NHS Digital yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â chasglu a defnyddio data cleifion. Mae'r ddua sefydliad wedi rhoi mesurau diogelwch llym ar waith i ddiogelu gwybodaeth cleifion sy'n cael ei dal yn y system casglu data ac wrth ddadansoddi'r set ddata anadnabyddadwy. Mae'r system TG ar gyfer casglu data yn cynnwys gwahanol lefelau diogelwch, fel diogelwch cyfrineiriau adnabod sy'n atal defnyddwyr nas awdurdodwyd rhag cael mynediad, ac amgryptio data.

### Â phwy y byddwn yn rhannu data?

Dim ond ar ôl dilyn gweithdrefn lywodraethu gaeth i sicrhau cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y bydd yr Archwiliad yn rhannu data ar lefel cleifion. Gall ymchwilwyr wneud cais i Reolwr Data yr Archwiliad (y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd, HQIP) os ydynt yn dymuno defnyddio'r data am gleifion ar gyfer astudiaeth ymchwil. Mae'r ceisiadau hyn yn cael eu trafod drwy broses gymeradwyo fanwl sydd wedi'i disgrifio yma:

[www.hqip.org.uk/national-programmes/accessing-ncapop-data](http://www.hqip.org.uk/national-programmes/accessing-ncapop-data)

## Beth os nad wyf am i'm gwybodaeth gael ei defnyddio gan yr Archwiliad?

Mae gan bob claf yr hawl i wneud y canlynol:

- Gweld y wybodaeth amdano sy'n cael ei dal gan yr Archwiliad
- Gofyn am gywiro data personol anghywir neu anghyflawn
- Gofyn am ddileu ei wybodaeth bersonol (dim ond mewn amgylchiadau penodol y mae'r hawl hon yn gymwys)
- Gwneud cais am gyfyngu'r ffordd y mae'r Archwiliad yn defnyddio ei ddata personol
- Gwrthwynebu prosesu ei wybodaeth
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ([ico.org.uk](https://ico.org.uk)) am brosesu ei wybodaeth bersonol

I gael gwybodaeth am y ffordd i arfer yr hawliau hyn, cysylltwch â'r Archwiliad yn y cyfeiriad e-bost canlynol: [og.cancer@nhs.net](mailto:og.cancer@nhs.net)

I gael gwybodaeth am y ffordd i gyrrchu, cywiro neu ddileu gwybodaeth sy'n cael ei dal mewn setiau data eraill a ddefnyddiwn, gweler polisi'r rheolwr data perthnasol:

- NHS Digital: [www.digital.nhs.uk/about-nhs-digital/our-work/keeping-patient-datasafe/how-we-look-after-your-health-and-care-information](https://www.digital.nhs.uk/about-nhs-digital/our-work/keeping-patient-datasafe/how-we-look-after-your-health-and-care-information)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: [www.ons.gov.uk/aboutus/transparencyandgovernance/dataprotection](https://www.ons.gov.uk/aboutus/transparencyandgovernance/dataprotection)
- Public Health England: [www.gov.uk/government/organisations/public-healthengland/about/personal-information-charter](https://www.gov.uk/government/organisations/public-healthengland/about/personal-information-charter)

## Newidiadau yn ein polisi preifatrwydd

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd a byddwn bob amser yn cynnwys y fersiwn ddiweddaraf ar y dudalen we hon. Diweddarwyd y polisi preifatrwydd ddiwethaf ar 10 Hydref 2018.

## Sut i gysylltu â ni

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein polisi preifatrwydd neu am wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch. Cyfeiriad e-bost: [og.cancer@nhs.net](mailto:og.cancer@nhs.net)

Mae gwybodaeth ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y gofynion am gadw data personol yn ddiogel gan yr Archwiliad a sut i roi gwybod am dorri deddfwriaeth data: [ico.org.uk](https://ico.org.uk)